Children in Wales
Plant yng Nghymru

Rhaglen Hyfforddi

Gwanwyn - Haf 2010



Plant yng Nghymru
Cyrsiau hyfforddiant

Croeso i Rhaglen Hyfforddi newydd Plant yng Nghymru. Mae'n holl gyrsiau yn rhai amlddisgyblaethol a'u nod yw hyrwyddo ymagwedd integredig ar gyfer pob un o'r rheiny sy'n gweithio mewn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Rydym yn defnyddio adnoddau ein tîm staff arbenigol ein hunain, a rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a sefydliadau arbenigol, i gyflwyno digwyddiadau hyfforddi o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru. Gallwn hefyd ddarparu hyfforddiant 'mewnol.'

Archebu Lle

Cofrestrir ar sail y cyntaf i'r felin ac mae lleoedd yn gyfyngedig, felly fe'ch cynghorir i drefnu'ch lle yn gynnar. Pan fydd y cwrs yn llawn cedwir rhestr wrth gefn a fyddwn ni'n cysylltu a chi os bydd unrhyw un yn canslo. Gellir bwcio trwy ddefnyddio'r ffurflen gais amgaeedig neu ar-lein trwy wefan Plant yng Nghymru, www.plantyngnghymru.org.uk. A fyddech cystal â llenwi un ffurflen ar gyfer pob cynrychiolydd, a phan fyddwch wedi'i llenwi, gwnewch gopi ar gyfer eich cofnodion eich hun. Ni dderbynnir archebion dros y ffôn. Pan dderbynnir eich cais, bydd eich lle yn cael ei gadarnhau trwy e-bost a bydd manylion y cwrs yn cael eu hanfon atoch cyn y digwyddiad. I osgoi cael eich siomi ar y diwrnod, a wnewch chi sicrhau eich bod wedi cael cadarnhad o'ch lle cyn mynd i'r lleoliad.

Canslo

Os byddwch yn canslo tair wythnos cyn dyddiad y digwyddiad, cewch ad-daliad llawn, ac eithrio £10 o ffi gweinyddu. Ni ellir rhoi ad-daliad ar ôl y dyddiad hwn, ond gellir gwneud cyfnewidiadau. Mae Plant yng Nghymru yn cadw'r hawl i addasu rhaglenni digwyddiad ar unrhyw adeg.

Ymunwch â Plant yng Nghymru

Pam na ymunwch â Plant yng Nghymru a manteisio ar gyfraddau aelodaeth ar gyfer gyd o'n cyrsiau hyfforddiant? Cysylltwch â ni ar 029 2034 2434 neu trowch at www.plantyngnghymru.org.uk/membership i gael gwybod mwy. Fel aelod gallwch gael gostyngiadau ar ddigwyddiadau, hefyd E-friffiau Polisi rheolaidd, gohebiaeth aelodaeth chwarterol (gan gynnwys cylchgrawn lliw llawn) a llawer o fuddion eraill.

Contents

Hyfforddiant Mewnol 3

Ffocws ar Blant a Phobl Ifanc

Ymagweddau Aml-synhwyraidd at Ddysgu 5
A oes curo ar blant? 5
Yn Erbyn y Ffactorau – Adeiladu Cadernid mewn Pobl Ifanc 6
Materion Allweddol yn y Glasoed 6
Cyfathrebu ac Ymgynghori gyda Plant Anabl 7
Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar 7
Cyflwyniad i Hawliau a Chyfranogiad Plant 8
"Gwelwch Fi, Clywch Fi" – hyrwyddo hawliau plant anabl 8

Cefnogi Teuluoedd

Cyflwyniad i Weithio gyda Thadau 9
Cefnogi Grwpiau Tadau yn y Blynyddoedd Cynnar 9
Ymdopi gyda Phlant Ifanc 10
Blynyddoedd heriol! 10

Cefnogi Ymarferwyr

Cyflwyniad i Waith Grŵp 11
Uwch Sgiliau Gwaith Grŵp 11
Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd yng Nghymru 12
Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal a'r Pellter a Deithiwyd 12

Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Gostwng Damweiniau Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar 13
Iechyd Meddwl Rhieni a'i Effaith ar Blant 13
Diogelu plant - Gweithio gyda rhieni a fedrai fod yn beryglus 14
Diogelu Plant mewn Chwaraeon a Hamdden 14
Cam-drin yn y Cartref a Diogelu Plant – Ymagwedd Aml-asiantaeth 15

Calendr Hyfforddi 16

Hyfforddiant Mewnol

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu un o'r digwyddiadau a hysbysebir ar gyfer eich sefydliad neu gomisiynu diwrnod o hyfforddiant teilwredig, medrwn drefnu'r hyfforddiant i'ch gofynion penodol, llunio rhaglen ar gyfer y dydd, sicrhau hyfforddydd arbenigol a'r holl ddeunyddiau perthnasol. Os ydych chi'n darparu'r lleoliad, gall hyn fod yn ffordd effeithiol o ran cost o sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant eich holl grŵp staff eu diwallu ar adeg a lle sy'n addas i'ch sefydliad. Yn ogystal â'r cyrsiau a hysbysebir yn y rhaglen hyfforddiant, gall staff Plant yng Nghymru gynnig amrywiaeth o weithdai hanner diwrnod codi ymwybyddiaeth ar y pynciau dilynol:

Sut i gefnogi plant anabl mewn gosodiadau prif ffrwd

Bydd y gweithdy hwn yn cynnwys edrych ar sut y medrir gwneud addasiadau rhesymol o fewn gosodiadau gan roi syniadau o sut y medrir cefnogi'r grŵp yma o blant i gael mynediad i'ch gwasanaethau a'u cynnwys yn y gweithgareddau a gynigiwch. Yn ogystal â sicrhau fod y lleoliad yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, bydd y gweithdy hefyd yn edrych ar wneud eich holl weithgareddau'n fwy cynhwysol a hefyd gynorthwyo staff i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl. Bydd yn cynnwys cyflwyniad ar Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a 2005 a deddfwriaeth arall berthnasol.

Gall Plant yng Nghymru hefyd gynnig cwrs cyflwyniadol cyffredinol ar arfer da ar gyfer gweithio gyda phlant anabl wedi ei deilwra ar gyfer anghenion eich gosodiad.

Hyfforddiant cyfranogiad penodol i'r sector

Gall Plant yng Nghymru ddarparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfranogiad a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer sefydliadau sydd eisiau sicrhau y caiff defnyddwyr gwasanaeth ifanc eu cynnwys wrth gynllunio a dylunio eu gwasanaethau. Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar y rhwystrau a'r cyfleoedd penodol dros alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eich gosodiad. Bydd sesiynau yn seiliedig ar anghenion pob grŵp ac yn seiliedig ar bolisi cyfranogiad yn eu maes gwaith.

Dulliau cyfranogol o weithio gyda phobl ifanc

Gall Plant yng Nghymru ddarparu sesiynau hyfforddiant ar ddulliau cyfranogol gyda phobl ifanc. Gall sesiynau un ai fod yn gyffredinol neu'n hyfforddiant penodol a ddatblygwyd yn seiliedig ar anghenion neilltuol y grŵp.

Cofnodi a Chadw Cofnodion

Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cofnodi gwybodaeth ac yn ystyried pwysigrwydd cadw cofnodion effeithiol mewn unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Bydd yn ymchwilio pa systemau sydd gan eich sefydliad ar gyfer cofnodi gwybodaeth, edrych ar faterion o arfer da a chysondeb ar draws y grŵp staff.

Sut i ymrwymo tadau

Mae gweithio gyda thadau yn awr yn dod yn gynyddol brif ffrwd - ar lefel polisi ac ar lefel gwasanaeth. Bydd y gweithdy yn ystyried pwysigrwydd ymrwymo tadau i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant a sut y gall hyn gael goblygiadau pellgyrhaeddol ar gyfer yr holl deulu. Bydd y gweithdy'n edrych ar y rhwystrau lluosog sy'n atal dynion rhag cymryd rhan mewn gwasanaethau. Bydd cyfranogwyr yn sicrhau mwy o ddealltwriaeth o sut a pham bod angen iddynt gynnwys dynion yn llawnach wrth ddylunio gwasanaeth sy'n ymrwymo gyda theuluoedd.

Amddiffyn Plant

Cynllunnir gweithdai i drafod gofynion penodol diogelu plant a phobl ifanc yn eich gosodiad. Bydd y gweithdy yn codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd y gall plant gael eu cam-drin a'r arwyddion i fod yn ymwybodol ohonynt. Bydd yn ystyried y gofynion cyfreithiol a moesol i gadw plant yn ddiogel, gan gyfeirio at eich gosodiad a rolau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cyfrannu at hyn.

Monitro Polisi a Deddfwriaeth

Fe all Plant yng Nghymru ddarparu hyfforddiant ar monitro polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Fe ellir addasu'r hyfforddiant ar gyfer y meysydd polisi neilltuol sy'n effeithio ar sefydliad neu fudiad. Fe fydd yn cwmpasu datblygiad polisi a'r prosesau deddfwriaethol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig, ac fe fydd yn edrych ar ba feysydd sydd wedi'u datganoli a pha rai sy'n annatganoledig. Fe ellir hefyd darparu trosolwg ar bolisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn yr Undeb Ewropeaidd.

Am fwy o wybodaeth am ein hyfforddiant mewnol neu i drafod eich anghenion, a fyddech cystal â chysylltu â: Claire Sharp, Swyddog Hyfforddi, Plant yng Nghymru, 25, Plas Winsor, Caerdydd CF10 3BZ, Ffôn: 029 20342434, E-bost:

Ffocws ar Blant a Phobl Ifanc

Ymagweddau Aml-synhwyraidd at Ddysgu

Cwrs undydd a hwylusir gan Richard Hirstwood

Bydd y cwrs undydd hwn yn eich gadael yn llawn syniadau, ysbrydoliaeth ac yn gwybod sut i wella neu gyflwyno ymagwedd amlsynhwyraidd at ddysgu o fewn eich gosodiad. Bydd yn rhoi'r rhesymau am ddefnyddio ymagwedd o'r fath yn ogystal â syniadau rhwydd eu hailadrodd ar sut i wneud hyn. Bydd Richard yn dangos sut i greu amgylchedd unigol amlsynhwyraidd yn ogystal â sut i gael y defnydd gorau o offer all fod gennych. Bydd hefyd yn rhoi nifer o syniadau ar ddatblygu adnoddau synhwyraidd ar gost isel - ac mae ganddo drysorfa ohonynt i chi eu harchwilio ar y dydd!

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Cyflwyniad i ystafelloedd a stiwdios amlsynhwyraidd
- Pam fod angen yr ymagwedd yma ar gyfer rhai plant
- Syniadau rhwydd i fynd â hwy adref gyda chi – y medrwch eu rhoi ar waith y diwrnod nesaf un

12 Mai 2010, Merthyr
15 Mehefin 2010, Y Rhyl

COST:
Aelodau £98
Heb fod yn aelodau £120

A oes curo ar blant?

Gweithdy hanner-diwrnod a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Nod y gweithdy yw dod ynghyd â gweithwyr proffesiynol o wahanol gefndiroedd ym maes gofal plant i ymchwilio agweddau at guro plant, ac effeithiau curo. Bydd y sesiwn ryngweithiol iawn yn galluogi cyfranogwyr i drafod mater plant a gaiff eu curo gan rieni o fewn eu cyd-destun gwaith eu hunain ac ystyried opsiynau personol a pholisïau gweithle i drin hyn.

Bydd y gweithdy yn:

- Nodi'r cyd-destun cyfreithiol a diwylliannol ar gyfer curo plant
- Trafod pam fod curo plant yn parhau ym Mhrydain
- Ystyried curo plant yng nghyd-destun diogelwch a rheolaeth ymddygiad
- Ymchwilio p'un ai yw curo yn cam-drin, cywiro, cosbi neu'n gynnyrch rhwystredigaeth rhieni
- Ystyried amgennau i guro

20 Ebrill 2010, Caerdydd
9 Gorffennaf 2010, Wrecsam

COST:
Aelodau £50
Heb fod yn aelodau £65

Yn Erbyn y Ffactorau – Adeiladu Cadernid mewn Pobl Ifanc

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Young People in Focus

Pam fod rhai pobl ifanc yn ymdopi'n rhwyddach gydag anawsterau na phobl ifanc eraill? Pa ffactorau sydd wirioneddol yn gwneud gwahaniaeth i sut yr ydym yn ymdopi gydag adfyd? Beth all ymarferwyr wneud i sichrau gwahaniaeth? Mae'r cwrs un-dydd hwn yn ymchwilio sut y medrwch ddatblygu ymagwedd sy'n adeiladu ar gryfderau i helpu pobl ifanc i ddelio gydag adfyd, ymdopi gyda newid, goroesi siom a rheoli argyfwng. Bydd yn seiliedig ar ymarfer, ymchwil a damcaniaeth.

Mae'r cwrs yn cynnwys:

- Cadernid, risg ac ymdopi – beth ydyn ni'n ei olygu
- Nodweddion allweddol cadernid i unigolion a theuluoedd
- Goblygiadau gwahanol arddulliau menywod ifanc a dynion ifanc ar gyfer ymdopi
- Ffactorau diogelu ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau
- Arwyddocâd deallusrwydd emosiynol, datrys problemau ac optimistiaeth
- Gwrando ar bobl ifanc a theuluoedd a datblygu perthynas ofal a pharch
- Cefnogi cysylltioldeb

28 Mehefin 2010, Merthyr
21 Medi 2010, Hen Golwyn

COST:
Aelodau £120
Heb fod yn aelodau £ 145

Materion Allweddol yn y Glasoed

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Young People in Focus

Mae sefyllfa pobl ifanc mewn cymdeithas yn newid drwy'r amser. Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc fedru gwahaniaethu rhwng ffaith a myth. Mae'r cwrs hwn yn anelu i gynyddu dealltwriaeth o'r materion, tasgau a heriau allweddol sy'n wynebu pobl ifanc heddiw, fel y gall unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy mewn amrywiaeth o osodiadau ystyried y ffordd orau o'u cefnogi.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Archwiliad o rai o'r ffyrdd y newidiodd cymdeithas mewn blynyddoedd diweddar, sut mae hyn yn effeithio ar bobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda hwy
- Dynodi tueddiadau allweddol mewn meysydd megis poblogaeth, addysg, cyflogaeth, iechyd , bywyd teulu a throseddu
- Ymchwilio syniadau presennol am y 'glasoed' a chysyniadau megis camau datblygu a 'thasgau'
- Gweithio ar ffyrdd ymarferol i wella sgiliau cyfathrebu (gwrando ac ymateb) i bobl ifanc
- Ystyried y materion uchod o fewn fframwaith gwrth-wahaniaethol, gan roi ystyriaeth i bynciau megis hil, ethnigrwydd, anabledd, dosbarth, rhywioldeb, diwylliant a chrefydd.

14 Ebrill 2010, Merthyr

COST:
Aelodau £120
Heb fod yn aelodau £145

Cyfathrebu ac Ymgynghori gyda Plant Anabl

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Triangle

Nod y cwrs cyflwyniadol hwn yw cynyddu cymhwysedd a hyder mewn cyfathrebu ac ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc anabl, yn arbennig am eu safbwyntiau, dymuniadau a theimladau. Bydd y cwrs yn cyflwyno cyfranogwyr i wahanol ymagweddau at gyfathrebu o fewn fframwaith gwerthoedd clir.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Cymryd ymagwedd anffurfiol ac adfyfyriol at bob gwaith gyda phlant a phobl ifanc anabl
- Ymchwiliad o ystod eang o arddulliau a dulliau cyfathrebu
- Defnyddio ystod o strategaethau i oresgyn rhwystrau cyfathrebu

29 Ebrill 2010, Caerfyrddin

COST:
Aelodau £135
Heb fod yn aelodau £160

Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Windfall Training

Mae'r cwrs yn cynnig dealltwriaeth ehangach o sut y gall awtistiaeth effeithio ar ddatblygiad cynnar, chwarae a rhyngweithio cymdeithasol. Gall y ddealltwriaeth ddyfnach yma fod yn sylfaen i berthynas gadarnhaol a chynyddol gyda phlant awtistig. Ymchwilir strategaethau ar gyfer hyrwyddo ymrwymiad, chwarae a datblygiad iaith, ynghyd ag ymatebion cadarnhaol i ymddygiad a ganfyddir mewn awtistiaeth a all herio gweithwyr proffesiynol a theuluoedd. Mae'r cwrs yma ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant awtistig a'u teuluoedd sy'n dymuno dyfnhau eu dealltwriaeth ac ehangu eu sylfaen sgiliau gyda'r garfan hon o blant.

Bydd y cwrs yn trafod:

- Y farn bresennol ar natur a nodweddion Awtistiaeth
- Ymagweddau seiliedig ar dystiolaeth at chwarae, datblygiad cymdeithasol, lles teulu ac ymddygiad
- Strategaethau i gefnogi cyfathrebu a rhannu sylw

27 Mai 2010, Drenewydd
16 Mehefin 2010, Caerfyrddin
COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Cyflwyniad i Hawliau a Chyfranogiad Plant

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Cwrs cyflwyniadol yn defnyddio ystod o ddulliau cyfranogol wedi eu hanelu at ymarferwyr a rheolwyr yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a diogelu'r cyhoedd. Mae'r cwrs hwn ar gyfer rhai sy'n newydd i'r maes hwn o waith neu i bobl sy'n dymuno diweddaru eu gwybodaeth o'r 'agenda seiliedig ar hawliau' sy'n datblygu yng Nghymru.

Bydd y cwrs yma'n cynnwys:

- Dealltwriaeth o rôl 'hawliau plant' a sut y medrir ei weithredu a'i gynnwys gan weithwyr proffesiynol yn eu hymarfer dydd-i-ddydd
- Ymchwilio'r ffordd y mae gwerthoedd ac agweddau personol yn effeithio ar ein hymagwedd at hawliau plant
- Ystod o dechnegau cyfranogol y medrir eu defnyddio wrth ymrwymo gyda phlant a phobl ifanc
- Dealltwriaeth o'r fframweithiau deddfwriaethol a pholisi yn cynnwys y Safonau Cyfranogiad sy'n bodoli yng Nghymru
- Trosolwg o Gynllun Gweithredu Cymru Pwyllgor Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig 'Gwneud Pethau'n Iawn'

23 Medi 2010, Caerdydd

COST:
Aelodau £98
Heb fod yn aelodau £120

"Gwelwch Fi, Clywch Fi" – hyrwyddo hawliau plant anabl

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru.

Cafodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl gydag Anableddau ei gadarnhau gan y Deyrnas Unedig ym Mehefin 2009. Diben y Confensiwn yw hyrwyddo, diogelu a sicrhau bod pob person gydag anabledd yn mwynhau eu holl hawliau dynol a rhyddid sylfaenol yn llawn a chyfartal ac i hyrwyddo parch am eu hurddas cynhenid. Mae hyn yn nodi newid sylfaenol mewn agweddau ac ymagweddau at bobl gydag anableddau ym mhob rhan o'r byd.

Bydd yr hyfforddiant yn ymchwilio sut y medrir defnyddio'r Confensiwn yma, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfennau eraill i hyrwyddo hawliau plant anabl i gael yr un mynediad i gyfleoedd bob dydd y mae plant heb fod yn anabl yn eu cymryd yn ganiataol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Deall hawliau plant anabl
- Darpariaeth allweddol y Confensiwn ar Hawliau Pobl gydag Anableddau
- Ymchwilio'r berthynas rhwng Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl gydag Anableddau

22 Mehefin 2010, Abertawe
15 Medi 2010, Y Rhyl

COST:
Aelodau £80
Heb fod yn aelodau £100

Cefnogi Teuluoedd

Cyflwyniad i Weithio gyda Thadau

Cwrs deuddydd a hwylusir gan Fatherskills

Anelir y cwrs hwn at bob gweithiwr proffesiynol sy'n dymuno ymrwymo'n ystyrlon gyda theuluoedd. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar yr egwyddorion damcaniaethol ar gyfer cynyddu cyfranogiad gan dadau ac yn rhoi'r hyder i ymarferwyr i drin y maes gwaith anodd hwn.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Egwyddorion ac ymarfer gweithio gyda thadau
- Awgrymiadau ymarferol ar gyfer cyrraedd tadau
- Sut i gefnogi tadau i chwarae a rhyngweithio gyda'u plant
- Y sgiliau sydd eu hangen i hwyluso perthynas ystyrlon rhwng tad a phlentyn
- Ymchwiliad o sut y newidiodd rolau dynion a menywod o fewn y teulu
- Rhoi'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer hyfforddiant gwaith grŵp "Cefnogi Grwpiau Tadau yn y Blynyddoedd Cynnar"

10 & 11 Mehefin 2010, Y Rhyl

COST:
Aelodau £195
Heb fod yn aelodau £235

Cefnogi Grwpiau Tadau yn y Blynyddoedd Cynnar

Cwrs deuddydd a hwylusir gan Fatherskills

Gan adeiladu ar y ddamcaniaeth a ddatblygwyd yn Cyflwyniad i Weithio gyda Tadau, anelwyd y cwrs hwn at sefydliadau ac ymarferwyr sy'n gweithio mewn gosodiadau Blynyddoedd Cynnar. Mae'n rhoi pecyn cymorth i helpu creu a chynnal rhaglen 12-wythnos ar gyfer grŵp tadau. Mae'r cwrs yn seiliedig ar ddysgu rhyngweithiol a sut i drosi hyn yn weithio gyda thadau.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Help i sefydliadau i gyflawni eu Dyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol
- Canllaw cam wrth gam i redeg grŵp tadau
- Esboniad o'r gwahaniaethau mewn ymrwymo tadau o gymharu â mamau
- Diffiniad o'r hyn sy'n gwneud tad ymglymedig a sut i hyrwyddo hyn gyda dynion
- Ffocws ar sicrhau gwell canlyniadau plant yn hytrach na gorchwylion rhiant
- Dull gwerthuso ar gyfer mesur cynnydd ymrwymiad ymysg tadau

13 & 14 Mai 2010, Merthyr
23 & 24 Medi 2010, Llandudno

COST:
Aelodau £195
Heb fod yn aelodau £235

Ymdopi gyda Phlant Ifanc

Cwrs hyfforddiant tri diwrnod a hwylusir gan Pam Pritchard a Jill Duguay

Mae'r hyfforddiant cynhwysfawr hwn ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda theuluoedd, yn neilltuol y rhai sy'n dymuno gweithio gyda rhieni sy'n cael anawsterau sylweddol gyda'u plant 0-8 oed. Mae'r cwrs yn rhoi amrywiaeth o ymagweddau anffurfiol ac ymarferol. Bydd y fframwaith yn eich helpu i deimlo'n hyderus wrth sefydlu a rhedeg eich grŵp eich hunan gyda rhieni neu i gael ei ddefnyddio hefyd ar sail unigol gyda theuluoedd. Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio gyda materion rhianta a all fod wedi ceisio gweithio mewn llawer o ffyrdd i helpu teulu i wneud newidiadau cadarnhaol ac wedi awgrymu nifer o ddulliau, heb lwyddiant.

Yn ystod y tri diwrnod byddwn yn ymchwilio ac yn ystyried:

- Gwaith grŵp fel dull o hwyluso newid o faterion ymarferol i ddeinameg grŵ p
- Sut y gall profiadau rhieni yn y gorffennol 'fynd ar ffordd' eu rhianta.
- Fframwaith ymddygiad wedi ei ymchwilio'n dda a'i brofi wrth helpu rhieni i reoli ymddygiad eu plant
- Defnydd gwerthfawr fideo/DVD i helpu rhieni i ddod yn arbenigwyr mewn anawsterau datrys problem
- Sut i ganfod pethau cadarnhaol mewn sefyllfaoedd anodd

19 – 21 Mai 2010 Castell Nedd

COST:
Aelodau £225
Non Aelodau £250

Challenging Years!

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Young People in Focus

Bydd y cwrs yma'n paratoi ymarferwyr ar gyfer cynnal y rhaglen Challenging Years! Mae Challenging Years! yn rhaglen rianta fer a hygyrch sy'n edrych ar y newid yn y berthynas rhwng rhieni a'u plant wrth iddynt symud i ysgol uwchradd. Mae'r rhaglen yn annog rhieni i ystyried yr heriau newydd fydd yn wynebu eu plant wrth iddynt symud tuag at fwy o annibyniaeth, ac mae'n ddelfrydol ar gyfer ei gynnal mewn ysgolion a gosodiadau cymunedol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Gwybodaeth waith o gynnwys llawlyfr Challenging Years!
- Beth sy'n effeithiol wrth gefnogi rhieni pobl ifanc yn eu harddegau
- Gwahanol anghenion rhieni sy'n mynychu'r cwrs
- Datblygu sgiliau hwyluso o fewn cyd-destun Challenging Years!

Bydd pawb sy'n mynychu yn derbyn copi o'r llawlyfr Challenging Years!

13 Ebrill 2010, Merthyr

COST:
Aelodau £165
Heb fod yn aelodau £190

Cefnogi Ymarferwyr

Cyflwyniad i Waith Grŵp

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs un-dydd hwn yn rhoi cyflwyniad i sefydlu a rhedeg grwpiau. Mae'n addas ar gyfer pobl sy'n rhedeg unrhyw fath o grŵp - ffurfiol neu anffurfiol, a arweinir gan dasg, cynnwys neu brosesau, strwythuredig neu ddistrwythur - a gydag unrhyw grŵp cleient. Bydd yn helpu cyfranogwyr i ddynodi cryfderau a gwendidau yn eu hymarfer presennol ac i ystyried llwybrau ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Ymchwilio'r broses ar gyfer cynllunio dechreuol grŵp
- Cyflwyniad i ddamcaniaethau a dulliau gwaith grŵp
- Sut i gynllunio sesiynau unigol
- Adnabod patrymau cyffredin ym mhroses gwaith grŵp
- Deall sut i gysylltu'r ymagwedd gwaith grŵp a ddewiswyd gyda nodau ac amcanion y grŵp penodol
- Syniadau ar gyfer cofnodi gwaith grŵp, gan gysylltu hyn â rhoi adroddiadau ac argymhellion i randdeiliaid.

22 Ebrill 2010, Caerdydd

COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Uwch Sgiliau Gwaith Grŵp

Cwrs deuddydd a hwylusir gan Jill Duguay

Gall gweithio gyda grwpiau fod yn werth chweil a heriol. Bydd y deuddydd yma yn gyfle i gyfranogwyr rannu profiadau a syniadau o weithio gyda grwpiau o oedolion, a bydd yn gyfle i bobl adeiladu ar y cyflwyniad blaenorol i sgiliau gwaith grŵp. Caiff rhai o'r damcaniaethau dilynol eu hymchwilio yn ystod y deuddydd: gwaith grŵp, sgiliau cyfathrebu, dadansoddi trafodion, sgiliau cwnsela a rheoli gwrthdaro.

Mae gan Jill brofiad helaeth o weithio'n therapiwtig gyda theuluoedd ac unigolion yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Dros y naw mlynedd ddiwethaf bu'n gweithio gyda grwpiau o rieni fel Cydlynydd Rhianta gyda Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid.

Yn ystod y cwrs deuddydd bydd cyfranogwyr yn:-

- Rhannu profiadau o redeg grwpiau
- Trafod ymrwymiad, prosesau grŵp, deinameg a materion rheolaeth
- Ystyried damcaniaethau ar gyfer deall beth sy'n digwydd o fewn y grŵp a strategaethau i ddelio gyda'r anawsterau sy'n codi

17 & 18 Mehefin 2010, Y Rhyl
1 & 2 Gorffennaf 2010, Castell Nedd

COST:
Aelodau £135
Heb fod yn aelodau £160

Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd yng Nghymru

Cwrs undydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Bydd y cwrs rhyngweithiol hwn yn rhoi dealltwriaeth i unigolion sy'n gweithio yng Nghymru o sut mae eu sefydliad a meysydd allweddol o waith yn ffitio i'r prif feysydd strategaeth yn ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd cyfranogwyr yn dysgu am strategaethau yng Nghymru sy'n dylanwadu ar bolisi a ffrydiau cyllid.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Trosolwg o'r cyd-destun gwleidyddol a phrosesau yng Nghymru
- Nodi'r prif strategaethau yn ymwneud â pholisi plant yng Nghymru
- Eglurhad o'r gwahaniaethau allweddol rhwng polisïau Cymru a Lloegr ar gyfer plant a theuluoedd
- Esboniad o'r strwythurau a blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio gwasanaethau plant a theulu
- Goblygiadau gweithio mewn gwlad ddwyieithog
- Cyfle i ddadansoddi'r prif fygythiadau a chyfleoedd ar gyfer gwasanaethau cyfranogwyr

18 Mai 2010, Caerfyrddin
30 Mehefin 2010, Llandudno
6 Gorffennaf 2010, Caerdydd

COST:
Aelodau £80
Heb fod yn aelodau £100

Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal a'r Pellter a Deithiwyd

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs hwn yn berthnasol i reolwyr ac ymarferwyr sydd eisiau dangos fod eu hymyriad wirioneddol wedi gwneud gwahaniaeth i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae cyllidebau dan bwysau ac mae angen i bob sefydliad ystyried bod yn ddarbodus ac effeithiol, ond mae'n bwysig cadw ffocws ar effeithlonrwydd gwasanaethau. Bydd y cwrs yma'n edrych ar bwysigrwydd mesur y canlyniadau meddal a sicrhaodd eich ymyriad i'r bobl yr ydych yn gweithio gyda hwy.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Dealltwriaeth o ddiffiniadau monitro a gwerthuso
- Sut i ddatblygu a gweithredu system fonitro effeithiol
- Cyfle i ystyried pa ganlyniadau meddal sy'n berthnasol ar gyfer eich gosodiad
- Dynodi pa ddangosyddion canlyniadau sydd angen i chi eu monitro
- Ymchwilio amrywiaeth o ddulliau o fesur canlyniadau
- Adolygu cynnydd i asesu'r pellter a deithiwyd

21 Ebrill 2010, Castell Nedd
14 Medi 2010, Y Rhyl

COST:
Aelodau £80
Heb fod yn aelodau £100

Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Gostwng Damweiniau Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs un-dydd cyfranogol hwn yn defnyddio ymchwil ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth i helpu ymarferwyr i ddeall a thrin damweiniau y medrir eu hatal yn y cartref, gan ganolbwyntio ar y damweiniau mwyaf cyffredin, difrifol neu sy'n peri anabledd. Anelwyd y cwrs at Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Dechrau'n Deg a Cychwyn Cadarn, Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparwyr Cynllun Offer Diogelwch Cartref a Rheolwyr Iechyd a Lles.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Dynodi pwy sydd fwyaf mewn risg, a pham fod risg yn amrywio
- Ymyriadau effeithiol - Codymau, Tân, Gwenwyn, Llosgiadau a Sgaldiadau
- Ymyriadau ar waith

27 Medi 2010, Caerffili

COST:
Aelodau £98
Heb fod yn aelodau £120

Iechyd Meddwl Rhieni a'i Effaith ar Blant

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Young Minds

Mae'r cwrs yma ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n dymuno cynyddu eu dealltwriaeth o effaith afiechyd meddwl rhieni ar ddatblygiad plant, ac ymchwilio ffyrdd o gefnogi teuluoedd lle mae anhwylder meddwl.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- *Cyflwyniad o'r symptomau clinigol ac ymddygiad yn gysylltiedig gydag anhwylderau cyffredin*
- *Sut mae problemau iechyd meddwl yn effeithio ar rianta*
- *Profiadau pobl ifanc o gael rhiant gyda phroblem iechyd meddwl*
- *Materion diogelu plant*
- *Ymchwilio risg a chadernid mewn teuluoedd fel ffordd o lunio ymyriadau*

26 Mai, Wrecsam
16 Medi, Merthyr

Cost:
Aelodau £135
Heb fod yn aelodau £160

Diogelu plant - Gweithio gyda rhieni a fedrai fod yn beryglus

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Anelwyd y cwrs un-dydd hwn at ymarferwyr a rheolwyr sy'n ymwneud â diogelu plant, cefnogi pobl yn eu cartrefi, yn gweithio 'allan o oriau' yn rheolaidd ac eisiau teimlo'n fwy hyderus am weithio'n ddiogel gyda rhieni/ gwarcheidwaid sy'n cyflwyno peryglon posibl. Bydd y cwrs yn rhoi cyfle i ddeall y risgiau ac ymchwilio ffyrdd o weithio diogelach.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n wynebu staff wrth ddiogelu plant
- Rhannu strategaethau ataliol a diogelu ar gyfer delio gyda rhieni/ gofalwyr peryglus
- Lleoli'r strategaethau hyn o fewn cyd-destun iechyd a diogelwch gweithle

30 Medi, Hen Golwyn

COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Diogelu Plant mewn Chwaraeon a Hamdden

Cwrs un-dydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Anelwyd y cwrs hwn at bobl sy'n gweithio ar sail gyflogedig neu wirfoddol gyda phlant a phobl ifanc mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Bydd yn rhoi cyfle i ddeall eich cyfrifoldebau yn llawn wrth ddiogelu'r bobl ifanc sy'n defnyddio eich sefydliad, ac i ymchwilio'r materion neilltuol ar gyfer eich gosodiadau yn cynnwys cludo, tynnu lluniau a chadw mewn cysylltiad gyda phlant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Dynodi'r risgiau i blant
- Dynodi'r risgiau i staff a gwirfoddolwyr
- Ymchwilio sut y medrir gostwng y risgiau hyn
- Teimlo'n hyderus wrth ddelio gyda datgeliadau

28 Mai 2010, Merthyr
8 Gorffennaf 2010, Hen Golwyn
COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Cam-drin yn y Cartref a Diogelu Plant – Ymagwedd Aml-asiantaeth

Cwrs un-dydd a gynhelir ar y cyd gan Cymorth i Fenywod Cymru a Plant yng Nghymru

Anelwyd y cwrs hwn at ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai â chymorth. Bydd yn galluogi ymarferwyr i ddeall mwy am ddangosyddion risg ac i rannu arfer da mewn cydweithio gydag aelodau teulu sy'n cymryd rhan.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Effaith cam-drin yn y cartref ar blant a phobl ifanc
- Dealltwriaeth o sut y gall rhai sy'n cam-drin yn y cartref ddefnyddio plant
- Dynodi'r ffactorau sy'n effeithio'n drwm ar fywyd menywod a phlant yn dilyn diwedd perthynas gyda rhywun sy'n cam-drin yn y cartref
- Heriau diogelu plant mewn teuluoedd lle mae cam-drin yn y cartref
- Creu cynlluniau diogelwch
- Ystyried y ffactorau risg sy'n berthnasol i sefyllfaoedd o gam-drin yn y cartref
- Gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a theuluoedd i ddynodi ac adlewyrchu ar ffactorau risg
- Deall rolau asiantaethau eraill

27 Ebrill 2010, Caernarfon
16 Mehefin 2010, Pontypridd

COST:
Aelodau £98
Heb fod yn aelodau £120

Calendr Hyfforddi

Calendr Hyfforddi - Ebrill i Medi 2010

Dyddiad	Cwrs	Lleoliad
13 Ebrill	Blynyddoedd heriol!	Merthyr
14 Ebrill	Materion Allweddol yn y Glasoed	Merthyr
20 Ebrill	A oes curo ar blant?	Caerdydd
21 Ebrill	Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal	Castell Nedd
22 Ebrill	Cyflwyniad i Waith Grŵp	Caerdydd
27 Ebrill	Cam-drin yn y Cartref a Diogelu Plant	Caernarfon
29 Ebrill	Cyfathrebu ac Ymgynghori gyda Phobl Ifanc Anabl	Caerfyrddin
12 Mai	Ymagweddau Aml-synhwyraidd at Ddysgu	Merthyr
13 & 14 Mai	Cefnogi Grwpiau Tadau yn y Blynyddoedd Cynnar	Merthyr
18 Mai	Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd yng Nghymru	Caerfyrddin
19 & 21 Mai	Ymdopi gyda Phlant Ifanc	Castell Nedd
26 Mai	Iechyd Meddwl Rhieni a'i Effaith ar Blant	Wrecsam
27 Mai	Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar	Drenewydd
28 Mai	Diogelu Plant mewn Chwaraeon a Hamdden	Merthyr
10 & 11 Mehefin	Cyflwyniad i Weithio gyda Thadau	Y Rhyl
15 Mehefin	Ymagweddau Aml-synhwyraidd at Ddysgu	Y Rhyl
16 Mehefin	Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar	Caerfyrddin
16 Mehefin	Cam-drin yn y Cartref a Diogelu Plant	Pontypridd
17 & 18 Mehefin	Uwch Sgiliau Gwaith Grŵp	Y Rhyl
22 Mehefin	"Gwelwch Fi, Clywch Fi" – hyrwyddo hawliau plant anabl	Abertawe
28 Mehefin	Adeiladu Cadernid mewn Pobl Ifanc	Merthyr

Calendr Hyfforddi

30 Mehefin	Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd yng Nghymru	Llandudno
1 & 2 Gorffennaf	Uwch Sgiliau Gwaith Grŵp	Castell Nedd
6 Gorffennaf	Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd yng Nghymru	Caerdydd
8 Gorffennaf	Diogelu Plant mewn Chwaraeon a Hamdden	Hen Golwyn
9 Gorffennaf	A oes curo ar blant?	Hen Golwyn
14 Medi	Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal a'r Pellter a Deithiwyd	Hen Golwyn
15 Medi	"Gwelwch Fi, Clywch Fi" – hyrwyddo hawliau plant anabl	Hen Golwyn
16 Medi	Iechyd Meddwl Rhieni a'i Effaith ar Blant	Merthyr
21 Medi	Adeiladu Cadernid mewn Pobl Ifanc	Hen Golwyn
23 Medi	Cyflwyniad i Hawliau a Chyfranogiad Plant	Caerdydd
23 & 24 Medi	Cefnogi Grwpiau Tadau yn y Blynyddoedd Cynnar	Llandudno
27 Medi	Gostwng Damweiniau Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar	Caerphilly
30 Medi	Gweithio gyda rhieni a fedrai fod yn beryglus	Hen Golwyn

Plant yng Nghymru
25 Plas Winsor
Caerdydd CF10 3BZ

Ffôn: 029 2034 2434
bookings@childreninwales.org.uk
www.plantyngnghymru.org.uk